Pembrokeshire Public Services Board

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

**COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO**
**Dydd Gwener, 27 Ionawr 2023 am 9.30am (cyfarfod Microsoft Teams)**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Neil Prior | Cyngor Sir Penfro (Cadeirydd) |
| Jo McCarthy | Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Iwan Thomas | Prif Weithredwr, PLANED |
| Tegryn Jones | Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (cyrhaeddodd am 9.55am) |
| Sue Leonard | Prif Swyddog, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) |
| Y Cynghorydd Elwyn Williams | Cadeirydd Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Elaine Lorton | Cyfarwyddwr Sir Benfro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Dr Steven Jones (SPJ) | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol, Cyngor Sir Penfro |
| Dr Barry Walters | Pennaeth, Coleg Sir Benfro |
| James White | Pennaeth Ymgysylltu, Perfformiad a Chymuned, Cyngor Sir Penfro |
| Anna Malloy | Rheolwr Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Chyfathrebu, Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau |
| Caroline Drayton | Rheolwr Gweithrediadau, CNC |
| Ceri Jackson | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Claire Germain | Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau, Llywodraeth Cymru |
| Alison Perry | Cyfarwyddwr Comisiynu, Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu |
| Roxanne Treacy | Cyd-gynhyrchu Cymru |
| Beth Cossins | Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru |

*Cymorth/Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Nick Evans | Rheolwr Polisi a Phartneriaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro |
| Lynne Richards | Swyddog Partneriaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro |
| Jemma Rees | Swyddog Cymorth Partneriaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro |
| Amy Richmond-Jones | Rheolwr Ymgysylltu, Cynllunio a Pherfformiad, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Bailie-Olivia Jones | Cynorthwyydd Cynllunio a Pherfformiad, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Philip Kloer | Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Is-gadeirydd) |
| Richard Brown | Prif Weithredwr Cynorthwyol, Cyngor Sir Penfro |

| | |
|---|---|
| Darren Mutter | Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol Dros Dro, Cyngor Sir Penfro |
| Rebecca Evans | Uwch-swyddog Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Tom Sawyer | Prif Swyddog Gweithredol, Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau |
| Kelvin Barlow | Rheolwr Rhaglen Partneriaeth Ranbarthol, Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru |
| Mydrian Harries | Prif Swyddog Cynorthwyol – Cyfarwyddwr Adnoddau, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Y Cynghorydd David Simpson | Arweinydd, Cyngor Sir Penfro |
| Christine Harley | Pennaeth Uned Cyflawni Lleol Heddlu Dyfed–Powys, HMPPS |
| Will Bramble | Prif Weithredwr, Cyngor Sir Penfro |

Dechreuodd y cyfarfod am 9.05am.

## 1. Croeso ac ymddiheuriadau

Croesawodd NP bawb i'r cyfarfod.  Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y rhai a restrir uchod.

## 2. Cofnodion o'r cyfarfod diwethaf

Gofynnwyd am fân newid i dudalen 2 o'r cofnodion – nododd EL fod Grŵp Sir Benfro Iachach wedi'i sefydlu dan y Rhaglen Datblygu Clwstwr Carlam, nid y Bwrdd Atal Rhanbarthol.

Ar ôl y diwygiad hwn, cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2022, fel cofnod cywir.

## 3. Diweddariad is-grwpiau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

<u>Cryfhau Cymunedau</u>

Roedd adborth gan Swyddfa'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i ymgorffori yn y cynllun prosiect.

<u>Thema'r amgylchedd</u>

Nododd CD fod dau o'r tri chynllun prosiect ar thema'r amgylchedd wedi'u diweddaru yn seiliedig ar gyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, gan ymhelaethu ar yr ymgynghoriad a oedd wedi digwydd a diwygio amcanion i'w gwneud yn CAMPUS.

<u>Tlodi ac anghydraddoldebau</u>

Dywedodd JW fod y rhan fwyaf o amser y Grŵp Tlodi dros yr ychydig fisoedd diwethaf wedi'i dreulio ar waith i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw yn y tymor byr, drwy ddefnyddio'r cyllid sydd ar gael i ddarparu data symudol, ystafelloedd cynnes, a chyllid ychwanegol i'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth.  Roedd y grŵp wedi cael cyflwyniad yn ddiweddar ar waith a wnaed gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro gyda'r rhai a oedd yn profi caledi ac roedd rhai negeseuon pwerus i lywio'r strategaeth tymor hwy y byddai'r Grŵp Tlodi yn canolbwyntio arni bellach.

<u>Adeiladu economi gynaliadwy, deg a gwyrdd</u>

Rhoddodd SPJ drosolwg o'r trafodaethau a gynhaliwyd yn y cyfarfod diwethaf ynghylch pedwerydd maes posibl y prosiect ac ategodd sylwadau ynghylch rôl bosibl partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel cyflogwyr mawr a'r effaith y gallent ei chael ar gaffael ar draws gwasanaethau cyhoeddus.

Roedd wedi codi'r pwnc yng nghyfarfodydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Sir Benfro a Phanel Busnes Sir Benfro yn gynharach ym mis Ionawr, gydag Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau ddim i fod i gyfarfod tan 30 Ionawr. Roedd Bwrdd Uchelgais Economaidd Sir Benfro a Phanel Busnes Sir Benfro yn cydnabod y rôl y gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei chwarae wrth gefnogi ymdrechion lobïo yn ymwneud â'r economi yn Sir Benfro a rôl benodol partneriaid y sector cyhoeddus yn yr agenda sero net. Nodwyd hefyd werth gwariant y sector cyhoeddus yn y sir ar gaffael gan fod gwariant yn y maes hwn yn anghymesur o fawr o ran y math o economi yn yr ardal. Y neges gan y byrddau, felly, oedd y gallent ddarparu rôl benodol ac ategol i gyfrannu at waith yn y maes hwn.

Nododd NP nad oedd yn glir sut y byddai'r byrddau'n ychwanegu unrhyw werth y tu hwnt i'r gwaith yr oeddent eisoes yn ei wneud, ac felly ni welai reswm cymhellol dros ychwanegu ffrwd waith arall i'r cynllun heb reswm cadarn. Ategwyd hyn gan aelodau eraill o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Fodd bynnag, efallai y bydd awgrymiadau yn dod yn ôl o'r ymgynghoriad ar y cynllun drafft, felly gellid ailystyried hyn os bydd ymateb cryf. Nododd NE efallai fod hwn yn faes arall lle gallai fod gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 'lwybr clir' at waith presennol sy'n mynd rhagddo mewn meysydd eraill. Byddai ystod o grwpiau, rhanbarthol ac fel arall, y byddai gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ddiddordeb ynddynt a byddai'r cynllun yn nodi'n glir beth yw'r perthnasoedd hyn hyd yn oed os nad oes unrhyw gysylltiad uniongyrchol gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

## 4. Gweledigaeth ar gyfer Sir Benfro – testun arfaethedig o'r cynllun llesiant

Nododd NE y bu sawl sgwrs dros y 12 mis diwethaf ynghylch beth ddylai'r weledigaeth hirdymor ar gyfer Sir Benfro fod dros yr 20 mlynedd neu fwy nesaf a bod gwaith gyda rhanddeiliaid wedi'i wneud dros yr haf yn ystod datblygiad y cynllun llesiant i gefnogi hyn. Roedd yn bwysig bod y weledigaeth hon yn cael ei chyfleu yn y cynllun llesiant.

Dywedodd fod amcanion llesiant y cytunwyd arnynt wedi helpu i osod y fframwaith trosfwaol ar gyfer datblygu'r cynllun a bod cynlluniau gweithredu manwl i gyflawni'r amcanion hyn wrthi'n cael eu datblygu. Fodd bynnag, yr hyn nad oes gennym ar hyn o bryd yw rhywbeth sy'n cysylltu hyn oll â'i gilydd o ran ymdeimlad o gyfeiriad ynghylch lle, cymuned a phobl a all eistedd wrth wraidd y cynllun newydd, ac a fydd yn rhoi dealltwriaeth glir i bobl o'r math o ddyfodol i Sir Benfro y mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ceisio'i greu. Felly, mae angen i'r datganiad gweledigaeth fod yn rhywbeth sy'n adlewyrchu bwriadau'r holl bartneriaid ac sy'n crynhoi uchelgeisiau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gywir ac yn gryno ac sy'n cyd-fynd â'r hyn y mae'r cynllun yn anelu at ei gyflawni.

Rhannodd NE y testun yr oedd wedi'i ddrafftio a thrafodwyd hyn yn fyr ac awgrymwyd rhai mân ychwanegiadau/diwygiadau. Byddai'r testun diwygiedig yn cael ei ddosbarthu i bartneriaid a'i ddefnyddio yn y cynllun, oni bai bod unrhyw wrthwynebiadau sylweddol.

## 5. Diweddariad ar bolisi cymunedau Llywodraeth Cymru

Rhoddodd NP ddiweddariad ar y cyfarfod a gynhaliwyd cyn y Nadolig gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yr oedd SL, IT, EL ac RB wedi'i fynychu. Roedd wedi rhannu rhaglen weinyddu'r cyngor gyda nhw, sy'n cyd-fynd yn agos ag ardal prosiect Cryfhau Cymunedau o fewn y cynllun llesiant. Nododd fod Llywodraeth Cymru yn frwdfrydig ynglŷn â'r hyn yr oedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn bwriadu ei wneud a'i fod wedi derbyn gwahoddiad i gyfarfod â chadeiryddion Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd, oedd hefyd bellach yn ymwneud â'r gwaith, ac i gyflwyno i Fwrdd Polisi Llywodraeth Cymru. Hoffai Llywodraeth Cymru gael y cyfle hefyd ar ryw adeg i gyflwyno ei gwaith ar ddatblygu polisi cymunedau i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Nododd SL ei fod yn gyfarfod defnyddiol gyda chydweithwyr Llywodraeth Cymru a'u bod yn awyddus i siapio meddwl trwy ddeialog ac i wneud yn siŵr bod angen polisi. Nododd CG hefyd ei bod yn ymwybodol bod ei chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru yn frwdfrydig iawn ac yn wirioneddol â diddordeb mewn ymgysylltu â chydweithwyr Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch datblygu'r polisi.

## 6. Diweddariad ar y Bwrdd Atal Rhanbarthol

Nododd NE fod y papur wedi'i rannu er gwybodaeth ac i wneud partneriaid yn ymwybodol o waith y Bwrdd Atal Rhanbarthol.

Nododd y partneriaid nad oeddent yn teimlo eu bod wedi cael eu briffio'n dda ar waith y Bwrdd Atal Rhanbarthol yn gyffredinol a bod hyn o bosibl oherwydd absenoldeb cynrychiolydd ers i Martyn Palfreman adael swydd Rheolwr Rhaglen Partneriaeth Ranbarthol ar gyfer Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru. Dywedodd NP y byddai'r cyfarfod briffio yn cael ei nodi, ond nid oedd digon o ymgysylltu â'r Bwrdd Atal Rhanbarthol ar hyn o bryd i allu gwneud sylwadau ystyrlon ar y papur a dywedodd yr hoffai gyfarfod â'r rheolwr newydd pan fydd yn ei swydd i drafod sut i sefydlu a chynnal cysylltiadau rhwng y ddau fwrdd.

## 7. Unrhyw fater arall

<u>Sesiwn Mapio Systemau Cyfan Pwysau Iach: Cymru Iach</u>

Rhoddodd BC ddiweddariad i bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y pwrpas y tu ôl i'r digwyddiad i'w gynnal ar 8 Chwefror 2023. Byddai'r gwahoddiad yn cael ei ddosbarthu i bartneriaid, y gofynnir iddynt enwebu cynrychiolydd priodol i fod yn bresennol.

<u>Cefnogaeth Llywodraeth Cymru i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus rhwng 2023/24 a 2025/26</u>

Atgoffodd NE y partneriaid fod cyllid ar gyfer y rhanbarth yn cael ei ddyfarnu'n flynyddol a hyd at y pwynt hwn wedi'i ganolbwyntio ar gefnogaeth i ddatblygu asesiadau a chynlluniau llesiant. Ond y tro hwn, roedd cyllid wedi'i ddyfarnu am gyfnod o dair blynedd a byddai'n canolbwyntio ar ymgysylltu, ond gellid ei ddefnyddio hefyd i gynnal systemau data presennol. Nododd fod y gofynion ynghylch y grant yn eithaf rhagnodol ac na ellid defnyddio'r cyllid i gefnogi cyflawni prosiectau unigol o fewn cynlluniau llesiant.

Rhoddodd NE drosolwg fyr o'r porth data, o'r enw Gorwel, a ddatblygwyd gan Writemedia gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru. Yr awgrym yn rhanbarthol oedd bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio i gynnal y system hon. Unwaith y byddai cynigion cadarn wedi'u datblygu,

byddai'r rhain yn cael eu dosbarthu i bartneriaid i'w cymeradwyo cyn eu hanfon at Lywodraeth Cymru.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.55am.

**Cofnod camau gweithredu**

| Rhif | Cam gweithredu | Dyddiad targed | Perchennog | Datrysiad |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Dosbarthu testun arfaethedig ‘Gweledigaeth ar gyfer Sir Benfro’ ar gyfer y fersiwn derfynol o’r cynllun llesiant i'w gymeradwyo | 30-1-2023 | LR | Wedi’i gwblhau |
| 2 | Dosbarthu gwahoddiad i sesiwn pennu ymagwedd Mapio Systemau Cyfan ‘Pwysau Iach: Cymru Iach’ | 27-1-2023 | LR | Wedi’i gwblhau |
| 3 | Dosbarthu cynigion rhanbarthol ar gyfer gwariant grant Llywodraeth Cymru i bartneriaid er gwybodaeth | 10-2-2023 | LR | Wedi’i gwblhau |